

# Polisi Coleg Penybont Bridgend College Policy



Enw'r Polisi: Polisi Cyngor ac Arweiniad Gyrfaoel

Cod y ddogfen (os yn berthnasol)

Adran: Cyfleoedd

Awdur y Ddogfen: Steve Jones

Teitl Swydd: Rheolwr Gyrfaoedd ac Ymgysylltu â Chyflogwyr

Dyddiad Cymeradwyo: Uwch Dîm Arwain: 16/2/2022

Dyddiad Adolygu: Chwefror 2025

# Polisi Coleg Penybont

## Bridgend College Policy



### Rhestr Wirio'r Polisi:

Gofynion ar gyfer Llunio'r Polisi		Gwybodaeth Atodol
Ydy'r Aseiad Effaith ar Gydraddoldeb wedi cael ei gwblhau? Gweler y ffurflen isod.	<b>Ydy</b>	
Ydy'r Aseiad Effaith ar y Gymraeg wedi cael ei gwblhau? Gweler y ffurflen isod.	<b>Ydy</b>	
Ydy Aseiad Effaith ar Ddiogelu Data wedi cael ei ystyried ynghylch y polisi hwn? Os ydyw, cysylltwch â'r Rheolwr Gwasanaethau Gwybodaeth i gwblhau Aseiad Effaith ar Ddiogelu Data.	<b>Nac ydy</b>	
Ydy'r adolygiad wedi cymryd y Canllawiau/Deddfwriaeth ddiweddaraf i ystyriaeth?	<b>Ydy</b>	
Oes angen cyngor cyfreithiol? Os oes, sicrhewch eich bod wedi cymryd y camau angenrheidiol i sicrhau'r cyngor cyfreithiol priodol cyn parhau.	<b>Nac oes</b>	
Oes angen hyfforddi staff? Os oes, sicrhewch fod yr hyfforddiant angenrheidiol wedi cael ei drefnu drwy'r Cynghorydd Dysgu a Datblygu.	<b>Nac oes</b>	
Oes unrhyw faterion sy'n gysylltiedig ag Adnoddau Dynol sydd angen eu hystyried? Os oes, cysylltwch â'r Rheolwr AD i drafod hyn ymhellach.	<b>Nac oes</b>	
Oes unrhyw faterion ariannol cysylltiedig? Os oes, cysylltwch â'r Rheolwr Cyllid i drafod hyn ymhellach.	<b>Nac oes</b>	
<i>Defnydd yw Uwch Dîm Arwain yn unig:</i>		
Ydy hwn yn bolisi newydd? Os ydy, mae angen i'r Uwch Dîm Arwain lenwi'r <a href="#">Rhestr Wirio Dirprwy Cymeradwyaeth Polisiâu'r Coleg</a> adeg y cymeradwyir y polisi.		
Lefel cymeradwyaeth a roddwyd: <b>Uwch Dîm Arwain</b>		

### Cyflwyniad

Yng Ngholeg Penybont ein nod yw rhoi i'n myfyrwyr y cyfleoedd gorau i ddysgu a datblygu eu sgiliau, i'w galluogi nhw i fod yn bopeth y gallant fod. Ein nod yw gweithio gyda myfyrwyr i wella eu sgiliau cyflogadwyedd trwy raglen gyrfaedd, hyrwyddo cyfleoedd gyrfaol, a galluogi piblinell o dalent i fusnes.

### *Sail Resymegol*

Nod Coleg Penybont yw alinio ei hun â fframwaith 'Gyrfaedd a'r Byd Gwaith' Llywodraeth Cymru, sy'n ceisio 'cynnig i bobl ifanc y math o fewnwelediad sy'n cynhyrchu realaeth a dyhead o ran eu bywyd yn y dyfodol. Yr unig fodd i gyflawni hyn yn effeithiol yw trwy raglen wedi'i chynllunio sy'n cynnwys ystod eang o brofiadau addysgu a dysgu a chyd-destunau ynghyd â chyfraniadau gan amrywiaeth o bartneriaid. Dylai'r rhain gynnwys y profiadau uniongyrchol gorau posibl o'r byd gwaith, wedi'u cefnogi gan gyfleoedd am gyngor ac arweiniad unigol.'

### *Ymrwymiad*

Mae Coleg Penybont wedi ymrwymo i ddarparu cyngor a chymorth rhagorol i'w fyfyrwyr, trwy ddarparu rhaglen o addysg, gwybodaeth ac arweiniad gyrfaol i bob myfyriwr.

### *Datblygiad*

Datblygwyd y polisi hwn, ac mae'n agored i'w adolygu, drwy drafodaethau gyda staff addysgu, gwasanaeth gyrfaedd Cymru (Gyrfa Cymru), myfyrwyr, rhieni, llywodraethwyr, staff a phartneriaid allanol eraill.

### Amcanion

Sicrhau bod pob myfyriwr yn cael y canlynol:

- Mynediad at arweiniad gyrfaol 1:1 proffesiynol a diduedd, sy'n rhoi cyfle am gyfrinachedd.
- Mynediad at raglen Addysg Gyrfaedd sy'n gwneud dysgwyr yn fwy gwybodus am lwybrau dilyniant, gyrfaedd a chyflogaeth.
- Cyfle i wella sgiliau cyflogadwyedd a'u dealltwriaeth o'r byd gwaith a'u hymwybyddiaeth ohono.
- Mynediad at ddata a gwybodaeth gywir am bob cyfle, gan gynnwys cyflogaeth a phrentisiaethau, cyrsiau pellach, a rolau gwirfoddol.
- Mynediad at gyflogwyr a'r cyfleoedd recriwtio lleol gorau.
- Cefnogaeth ac arweiniad ar gyfer llwybrau hyfforddiant ac addysg bellach ac uwch.
- Mynediad at wybodaeth berthnasol am y farchnad lafur.

### Gweithredu

#### ***Rheoli***

Yr Arweinydd Gyrfaoedd sy'n gyfrifol am gyd-drefnu'r rhaglen gyrfaoedd a bydd yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr perthnasol a Gyrfa Cymru i roi gweithgareddau ar waith. Bydd yr uwch reolwyr yn cefnogi'r Arweinydd Gyrfaoedd i sicrhau bod yr adnoddau a'r amser angenrheidiol ar gael i fewnosod rhaglen gyrfaoedd gadarn fel rhan o'r flwyddyn academaidd.

#### ***Staffio***

Disgwylir i bob aelod o staff gefnogi a chyfrannu at hwyluso gweithgareddau gyrfaoel fel y cynlluniwyd yn y rhaglen gyrfaoedd. Bydd tîm gyrfaoedd dynodedig yn arwain ar gyd-drefnu gweithgareddau gyrfaoedd ym mhob maes cwricwlwm, gyda chefnogaeth rhanddeiliaid allweddol fel Gyrfa Cymru, cyflogwyr, a sefydliadau cymorth eraill.

#### ***Cwricwlwm***

Mae'r rhaglen gyrfaoedd yn cynnwys amrywiaeth o sesiynau gyrfaoedd a chyflogadwyedd sy'n gysylltiedig â phob cwrs, cyfleoedd i ryngweithio â chyflogwyr perthnasol, amrywiaeth o ddigwyddiadau gyrfaoel, a chyfleoedd i ennill profiad ystyrlon mewn gweithle neu ar brosiectau cyflogwyr.

Mae gan bob myfyriwr fynediad at o leiaf ddau gysylltiad ystyrlon â chyflogwyr. Mae hyn yn amrywio ar gyfer pob cwrs, ond gall gynnwys, dosbarthiadau meistr, gweithdai, prosiectau byw, ymweliadau â gweithleoedd, lleoliadau gwaith, mentora gan gyflogwyr, yn ogystal ag amrywiaeth o ddigwyddiadau gyrfaoedd â themâu penodol. Ategir hyn gan 'Addewid Rhaglen Ddysgu' y coleg, sy'n cynnwys ystod o weithgareddau allgyrsiol cynlluniedig ar gyfer pob grŵp cwrs.

Yn ystod amser pob myfyriwr yn y coleg, cânt eu hannog a'u cefnogi i adeiladu a datblygu 8 sgil craidd y mae cyflogwyr yn dweud wrthym y eu bod yn chwilio amdanynt wrth recriwtio talent newydd. Mae pob rhaglen astudio wedi'i strwythuro i alluogi myfyrwyr i nodi wrth iddynt ddefnyddio a datblygu'r sgiliau craidd. Isod mae'r 8 Sgîl Craidd:

- Cynllunio a threfnu
- Meddwl yn feirniadol a datrys problemau
- Creadigrwydd ac arloesi
- Effeithiolrwydd personol
- Llythrennedd digidol
- Llythrennedd
- Rhifedd

- Cymraeg a dwyieithrwydd

### **Partneriaethau**

Arwyddir memorandwm cyd-ddealltwriaeth i gytuno ar y gwaith gyda Gyrfa Cymru. Mae lluo o waith partneriaeth arall yn bodoli gydag ystod eang o gyflogwyr, darparwyr addysg a sefydliadau lleol er mwyn cefnogi myfyrwyr a gwella'u siawns o ddod o hyd i swyddi da yn y dyfodol.

Mae gweithio'n agos gyda chyflogwyr yn hollbwysig ac wedi'i danategu gan strategaeth y coleg ar gyfer ymgysylltu â chyflogwyr: [Employer Engagement Strategy 2022-25](#)

### **Adnoddau**

Mae cyllideb flynyddol ar gael i gefnogi cynnal digwyddiadau a gweithgareddau rhaglen gyrfaoedd y coleg, yn ogystal â nifer o adnoddau a llwyfannau gyrfaoedd i wella dysgu a dealltwriaeth sy'n ymwneud â chynllunio gyrfaoedd. Mae hyn yn cynnwys deunyddiau sesiynau gyrfaoedd, fideos a digwyddiadau mewnwelediad i ddiwydiant, gwybodaeth am y farchnad lafur, ac adnoddau ar gyfer cael mynediad i ddiwydiant trwy ymweliadau, lleoliadau neu gyfleoedd recriwtio.

### **Datblygu staff**

Mae staff y tîm gyrfaoedd yn gymwys neu'n gweithio tuag at gymwysterau cyngor ac arweiniad perthnasol. Rhoddir pwyslais ar ddatblygiad proffesiynol parhaus er mwyn sicrhau bod gan y staff y wybodaeth a'r sgiliau diweddaraf. Sefydlir rhwydwaith cryf er mwyn sicrhau mynediad at hyfforddiant a digwyddiadau rheolaidd. Mae'r coleg yn dal aelodaeth gyda'r CDI i gefnogi hyn.

### **Monitro, Adolygu a Gwerthuso**

Canllawiau Gyrfaoel Da – mae adroddiad Gatsby yn nodi: “mae arweiniad gyrfaoel da yn hollbwysig os yw pobl ifanc am godi uchelgeisiau a manteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael iddynt”. “Mae arweiniad gyrfaoel da yn gyfrwng ar gyfer symudedd cymdeithasol”.

Mae Coleg Penybont wedi ymrwmo i roi wyth Meincnod Gatsby ar waith ac i gefnogi hyn, mae'n ymgymryd â'r Safon Ansawdd mewn Gyrfaoedd fel modd o asesu cymhwysedd (gweler atodiad 1 am fanylion pellach ar Feincnodau Gatsby).

Mae'r tîm Gyrfaoedd yn cefnogi cyd-drefnu gweithgareddau ac yn sicrhau bod gan bob grŵp cwrs weithgareddau a arweinir gan ddiwydiant sy'n bodloni Meincnodau Gatsby, trwy gyfarfod â meysydd cwricwlwm i gynllunio mewnbyn perthnasol, yn ogystal ag adrodd yn ôl ar gynnydd. Caiff gweithgareddau gyrfaoedd eu holrhain gan ddefnyddio dogfen olrhain, a chofnodir presenoldeb trwy un o lwyfannau gyrfaoedd y coleg. Ceir tystiolaeth o gyflawniad fyfyrwyr o ran sgiliau craidd ar ffurf bathodynau digidol.

# Polisi Coleg Penybont Bridgend College Policy



Mae gwerthusiadau ar gyfer gweithgareddau unigol hefyd yn cael eu cynnal trwy gasglu adborth myfyrwyr a staff, ac ar gyfer mesur canlyniadau.

Cynhelir adolygiad blynyddol o'r rhaglen gyrfaoedd a'r dull ymarferol fel y gellir gwella'n barhaus.

### Atodiad 1 Meincnodau Gatsby

Meincnod	Manylion	Deilliannau
<b>1. Rhaglen gyrfaoedd sefydlog</b>	Dylai fod gan bob coleg raglen addysg ac arweiniad gyrfael y mae dysgwyr, rhieni, athrawon, cyflogwyr ac asiantaethau eraill yn ymwybodol ohoni ac yn ei deall.	<p>Dylai fod gan bob coleg raglen gyrfaoedd sefydlog a strwythuredig sydd â chefnogaeth yr uwch dîm rheoli, a pherson dynodedig sydd wedi'i hyfforddi'n briodol i fod yn gyfrifol amdani.</p> <p>Dylid cyhoeddi'r rhaglen gyrfaoedd ar wefan y coleg mewn ffordd sy'n galluogi dysgwyr, rhieni, staff y coleg a chyflogwyr i gael mynediad iddi a'i deall.</p> <p>Dylid gwerthuso'r rhaglen yn rheolaidd gan ystyried adborth gan ddysgwyr, rhieni, staff y coleg a chyflogwyr fel rhan o'r broses werthuso.</p>
<b>2. Dysgu o wybodaeth am yrfaedd a'r farchnad lafur</b>	Dylai fod gan bob dysgwr, a'i rieni (lle bo'n briodol), fynediad at wybodaeth o ansawdd da am opsiynau astudio yn y dyfodol a chyfleoedd yn y farchnad lafur. Bydd angen cymorth cynghorydd gwybodus arnynt i wneud y defnydd gorau o'r wybodaeth sydd ar gael.	<p>Yn ystod eu rhaglenni astudio dylai dysgwr gyrchu a defnyddio gwybodaeth am lwybrau gyrfa a'r farchnad lafur i lywio eu penderfyniadau eu hunain o ran opsiynau astudio.</p> <p>Dylid annog rhieni i gyrchu a defnyddio gwybodaeth am y farchnad lafur ac opsiynau astudio yn y dyfodol i lywio eu cymorth i'r dysgwyr yn eu gofal.</p>
<b>3. Diwallu anghenion pob myfyriwr</b>	Mae gan ddysgwyr wahanol anghenion o ran arweiniad gyrfael ar wahanol bwyntiau o'u datblygiad. Mae angen teilwra cyfleoedd ar gyfer cyngor a chymorth i anghenion pob dysgwr. Dylai rhaglen gyrfaoedd coleg ymgorffori ystyriaethau o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth drwyddi draw.	<p>Dylai rhaglen gyrfaoedd coleg fynd ati i herio meddwl ystrydebol a chodi uchelgeisiau.</p> <p>Dylai colegau gadw cofnodion systematig o'r cyngor unigol a roddir i bob dysgwr, a phenderfyniadau dilynol y cytunwyd arnynt.</p> <p>Dylai'r cofnodion cyngor a roddir gael eu hintegreiddio â'r rhai a roddwyd ar gam blaenorol addysg y dysgwr (gan gynnwys ei ysgol uwchradd) pan fydd</p>

		<p>y rhain ar gael. Dylid dechrau cadw cofnodion o'r pwynt cyswllt cyntaf neu o'r pwynt trosglwyddo.</p> <p>Dylai fod gan bob dysgwr fynediad at y cofnodion hyn i gefnogi eu datblygiad gyrfaol. Dylai colegau gasglu a chadw data cywir am bob dysgwr a'i gyrchfan addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.</p>
<b>4. Cysylltu'r cwricwlwm â gyrfaoedd</b>	<p>Dylai pob aelod o staff cwricwlwm gysylltu dysgu'r cwricwlwm â gyrfaoedd, hyd yn oed ar gyrsiau nad ydynt yn cael eu harwain gan alwedigaeth benodol. Er enghraifft, dylai staff pynciau STEM amlygu perthnasedd pynciau STEM ar gyfer ystod eang o lwybrau gyrfaol yn y dyfodol. Dylai rhaglenni astudio hefyd bwysleisio pwysigrwydd mathemateg a Saesneg fel disgwyliad allweddol gan gyflogwyr.</p>	<p>Trwy gydol eu rhaglenni astudio (ac erbyn diwedd eu cyrsiau) dylai dysgwyr fod wedi cael y cyfle i brofi sut mae eu pynciau yn helpu pobl i gael mynediad i ystod eang o alwedigaethau (a bod yn weithwyr mwy effeithiol ynddynt).</p>
<b>5. Cysylltu â chyflogwyr a chyflogeion</b>	<p>Dylai pob dysgwr gael nifer o gyfleoedd i ddysgu oddi wrth gyflogwyr am waith, cyflogaeth a'r sgiliau sy'n cael eu gwerthfawrogi yn y gweithle. Gall hyn fod trwy amrywiaeth o weithgareddau cyfoethogi gan gynnwys siaradwyr gwadd, mentora a chynlluniau menter, a dylent gynnwys cyflogaeth ran-amser y dysgwyr eu hunain lle bo hynny'n berthnasol.</p>	<p>Bob blwyddyn, ochr yn ochr â'u rhaglen astudio, dylai dysgwyr gymryd rhan mewn o leiaf ddau gysylltiad ystyrion* â chyflogwr. Dylid cyflwyno o leiaf un cysylltiad trwy eu meysydd cwricwlwm.</p> <p>Dylai colegau gofnodi ac ystyried cyflogaeth ran-amser y dysgwyr eu hunain a'r dylanwad y mae hyn wedi'i gael ar eu datblygiad.</p> <p>* 'Cysylltiad ystyrion' yw un lle mae'r dysgwr yn cael cyfle i ddysgu am sut beth yw gwaith neu beth sydd ei angen i fod yn llwyddiannus yn y gweithle.</p>
<b>6. Cael profiad o'r gweithle</b>	<p>Dylai pob dysgwr gael profiadau uniongyrchol o'r gweithle trwy ymweliadau gwaith, cysgodi gwaith a/neu brofiad gwaith.</p>	<p>Erbyn diwedd eu hastudiaethau dylai'r dysgwyr fod wedi cael o leiaf un profiad o weithle (ar ben unrhyw swyddi rhan-amser a allai fod ganddynt) i'w helpu i archwilio cyfleoedd gyrfaol, ac i ehangu eu rhwydweithiau.</p>
<b>7. Cysylltu ag addysg bellach ac uwch</b>	<p>Dylai pob dysgwr ddeall yr ystod lawn o gyfleoedd dysgu sydd ar gael</p>	<p>Erbyn diwedd eu rhaglenni astudio, dylai dysgwyr fod wedi cael cysylltiad</p>



	<p>iddynt. Mae hyn yn cynnwys llwybrau academaidd a galwedigaethol a dysgu mewn ysgolion, colegau, prifysgolion ac yn y gweithle.</p>	<p>ystyrlon* ag ystod o ddarparwyr dysgu a hyfforddi a allai ffurfio cam nesaf eu gyrfa. Dylai hyn gynnwys, fel y bo'n briodol, golegau addysg bellach, darparwyr addysg uwch a phrentisiaethau a hyfforddiant. Dylai hyn gynnwys y cyfle i gwrdd â staff a dysgwyr.</p> <p>* 'Cysylltiad ystyrlon' yw un lle mae'r dysgwr yn cael cyfle i ddysgu am sut beth yw gwaith neu beth sydd ei angen i fod yn llwyddiannus yn y gweithle.</p>
<p><b>8. Arweiniad personol</b></p>	<p>Dylai pob dysgwr gael cyfleoedd i gael cyfweiliadau arweiniad gyda chynghorwyr gyrfa, a allai fod yn fewnol (aelod o staff y coleg) neu'n allanol, ar yr amod eu bod wedi'u hyfforddi at lefel briodol*. Dylai'r rhain fod ar gael i bob dysgwr pryd bynnag y bydd dewisiadau astudio neu yrfaol arwyddocaol yn cael eu gwneud. Dylid eu disgwyl ar gyfer pob dysgwr ond dylid eu hamseru i ddiwallu anghenion unigol.</p> <p>* Dylai'r coleg sicrhau bod mynediad at gynghorydd lefel 6 ar gael pan fo angen.</p>	<p>Dylai dysgwyr fod wedi cael o leiaf un cyfweiliad o'r fath erbyn diwedd eu rhaglenni astudio</p>

### ASESIAD EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

<b>Enw'r Polisi / Gweithdrefn</b> Name of Policy / Procedure	Polisi Cyngor ac Arweiniad Gyrfaol					
<b>Perchennog y Polisi</b> Policy Owner (to complete this EIA)	Steve Jones					
<b>Nod(au) a Phwrpas y Polisi</b> Aim(s) and Purpose of Policy	Sicrhau bod cyngor ac arweiniad gyrfaol o safon ragorol yn cael eu darparu i bob dysgwr yng Ngholeg Penybont.					
<b>Ar bwy mae'r polisi hwn yn effeithio?</b> Who does the policy affect?	<b>Dysgwyr</b> Learners	Y	<b>Staff</b>	Y	<b>Y Cyhoedd</b> General Public	Y

Nodwedd gydraddoldeb	Effaith gadarnhaol	Effaith niwtral	Effaith negyddol	Rheswm/sylw
Oedran		✓		
Anabledd		✓		
Ailbennu rhywedd		✓		
Priodas a phartneriaeth sifil		✓		
Beichiogrwydd a mamolaeth		✓		
Hil		✓		
Crefydd neu gred		✓		
Rhyw		✓		
Cyfeiriadedd rhywiol		✓		

Dyddiad cwblhau: 18/1/2022

Llofnod y rheolwr a gwblhaodd yr asesiad: Steve Jones

## Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg / Welsh Language Impact Assessment

<b>Enw'r Polisi / Gweithdrefn</b> Name of Policy / Procedure	Polisi Cyngor ac Arweiniad GyrfaoI					
<b>Perchennog y Polisi</b> Policy Owner (to complete this EIA)	Steve Jones					
<b>Nod(au) a Phwrpas y Polisi</b> Aim(s) and Purpose of Policy	Sicrhau bod cyngor ac arweiniad gyrfaoI o safon ragorol yn cael eu darparu i bob dysgwr yng Ngholeg Penybont.					
<b>Ar bwy mae'r polisi hwn yn effeithio?</b> Who does the policy affect?	<b>Dysgwyr</b> Learners	Y	<b>Staff</b>	Y	<b>Y Cyhoedd</b> General Public	Y

## Safonau'r Gymraeg / Welsh Language Standards

Rhif / No.	Math / Type	Safon / Standard	Cadarnhaol (gallai fod o fudd) Positive (could benefit)	Negyddol (gallai effeithio) Negative (could impact)	Dim Effaith No Impact
94	Safonau Llunio Polisi Policy Making standards	<p>Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid i chi ystyried pa effeithiau, os o gwbl (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn ei gael ar — (a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p> <p>When you formulate a new policy, or review or revise an existing policy, you must consider what effects, if any (whether positive or adverse), the policy decision would have on — (a) opportunities for persons to use the Welsh language, and (b) treating the Welsh language no less favourably than the English language.</p>		✓	

## Cynllun Gweithredu / Action Plan

# Polisi Coleg Penybont Bridgend College Policy



Dylai camau gweithredu ddangos y camau i'w cymryd i leihau neu, lle bo modd, ddileu unrhyw effaith negyddol ar y Gymraeg.

Actions should demonstrate steps to be taken to reduce or where possible, eliminate any negative impact on the Welsh Language.

<b>Gweithred / Action</b>	<b>Pwy / Who</b>	<b>Erbyn Pryd / By When</b>	<b>Mesur Llwyddiant /</b> <i>(sut y byddwn ni'n gwybod ein bod wedi cyflawni'r camau gweithredu)</i> <b>Success Measure</b> <i>(how will we know we have achieved the action)</i>
Recriwtio aelod staff newydd sy'n siarad Cymraeg yn rhugl	Steve Jones	Pan fydd y cyfle yn codi a lle bo hynny'n berthnasol	Aelod sy'n siarad Cymraeg yn rhugl wedi ymuno â'r tîm.

**Dyddiad Cwblhau'r Aseiad / Assessment Completion Date: 18/1/2022**